



## DARLLENWCH

Luc 2: 1-7

ADNOD  
ALLWEDDOL

Luc 2:7

Gofynnwch am  
help i chwilio am  
yr adnod hon


## Stori 4 Geni Iesu

Roedd Mair yn edrych ymlaen at gael y babi. Roedd popeth yn barod ar gyfer y geni ganddi yn ei chartref yn Nasareth, Galilea.

Yna, daeth gorchymyn oddi wrth yr Ymerawdwr Rhufeinig y byddai'n rhaid i bawb fynd i'r ddinas lle cawsant eu geni i gofrestru eu henwau.

Roedd hyn yn golygu bod taith bell gan Mair a Joseff i Fethlehem sy'n cael ei galw weithiau'n Ddinas Dafydd.

**C** Ar y map, rhwch enw'r dref lle roedd Mair yn byw a'r dref yr aethant iddi.



Pan ddaethant i Fethlehem, roedd yn anodd cael lle i aros gan fod y lle mor llawn.





Doedd dim lle yn y gwesty ond fe gawson nhw le i gysgu yn y diwedd.

Dyma lle cafodd Iesu ei eni. Rhoddodd Mair ef yn y preseb lle'r oedd bwyd yr anifeiliaid yn arfer cael ei roi. Ni fyddai neb yn meddwl y gallai'r babi hwn fod mor bwysig.

**C** Atebwch y cwestiynau yn y Grid Geiriau.

1. Pwy oedd yn gorfod mynd i gael eu cofrestru?
2. Beth oedd enw mam y Babi?
3. Pwy aeth gyda Mair?
4. Beth oedd yn llawn?
5. Ym mha ran o'r wlad oedd Nasareth?
6. Mewn beth wnaeth Mair wisgo Iesu? Dillad

-----



Mae cannoedd o fabanod yn cael eu geni bob dydd o gwmpas y byd ond nid oes yr un babi'n debyg i Iesu. Mae'r Babi hwn yn Fab Duw.

Amser y Nadolig fe ddylem ni ddiolch i Dduw am Ei gariad mawr yn anfon ei unig Fab i'r byd i'n Hachub ni.

**C** Llanwch y bylchau.

Iesu yw M \_\_\_ D \_\_\_.  
Daeth Iesu i'n H \_\_\_\_\_ ni.

Cyfanswm

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---



---



---



---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.  
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157  
Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiad Cymraeg gan Siân Roberts

Cyfes lawn o wersi dros dair blynedd i rai rhwng 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120